**P-05-1096 Dileu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o'r elfen orfodol o Fil Cwricwlwm 2020**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Kimberley Isherwood, ar ôl casglu cyfanswm o 5,307 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn rhan o broses o gyflwyno addysg rhywioldeb fyd-eang nad yw'n briodol ar gyfer y wlad hon. Mae'n rhywioli plant, yn methu â diogelu, yn ymddangos i'r darllenydd fel modelau o droseddu, yn cynnwys rhwystrau i ddatgelu, ac nid yw adrannau'r awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig wedi cael hyfforddiant digonol i weld yr arwyddion o gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio, ymddygiad rhywiol niweidiol, a llawer mwy! Yn ogystal â hynny, mae gennym dystiolaeth bod diffyg dealltwriaeth gan y rhai sy'n ymwneud â Chwricwlwm Cymru o'r broses gyflwyno fyd-eang hon.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Rydym yn brwydro yn erbyn y ddeddfwriaeth, nid addysg. Nid oes mesurau diogelu ar waith. Mae'r ymchwil yn gwbl annigonol drwyddi draw. Dyma rai lincs i erthyglau, gwefannau a rhai pynciau ymchwil posibl sy'n ymwneud ag addysg rhywioldeb:
"Sefydliad Iechyd y Byd- Standards in sexuality Education 2010 "
https://www.euro.who.int/en/health-topics/Life-stages/sexual-and-reproductive-health/news/news/2010/12/standards-for-sexuality-education-in-europe-start-their-way-to-countries-of-eastern-europe-and-central-asia
"UNESCO- International technical guidance on sexuality education 2018".
https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000260770
https://llyw.cymru/canllawiau-drafft-ar-addysg-cydberthynas-rhywioldeb
(MAE'R LINC UNIONGYRCHOL AR DUDALEN 4)

Mae grwpiau eraill sy'n ymgyrchu yn erbyn addysg rhywioldeb mewn ysgolion yn cynnwys:

- The Scottish Family Party
- Family Watch
- School gate campaign, Lloegr

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru